# STABLAU MACHYNLLETH

## September 2025




**Annwyl Gyfaill Stablau Machynlleth**

Mae'n bleser gennyf ddweud wrthych bod Cam Un y gwaith o adfer ac addasu Stablau Machynlleth at ddibenion gwahanol wedi cael ei gwblhau flwyddyn ar ôl i'r gwaith gychwyn. Mae hyn yn golygu bod tu allan yr adeilad bellach yn edrych fel ag yr oedd pan adeiladwyd yr adeilad yn wreiddiol tua 1854. Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith y tu mewn hefyd fel bod pren y nenfwd, y linteli a'r nodweddion eraill mewn cyflwr da.





Trefnwyd ymweliad safle ar gyfer grŵp o bobl gan gynnwys aelodau Cyngor Tref Machynlleth, ac aelodau bwrdd y Cwmni Buddiant Cymunedol. Ar ôl gweld yr adeilad, dywedodd **Judith Afrey, hanesydd pensaernïol lleol,**

*Roedd yr Hen Stablau yn rhan bwysig o wella Plas Machynlleth a'i ystad yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond tan yn ddiweddar, bu'n anodd gwerthfawrogi eu gwerth. Gan bod y gwaith i drwsio'r strwythur a'i wneud yn ddiogel wedi cael ei gwblhau erbyn hyn, datgelwyd eu gwir gymeriad unwaith eto. Mae'r cynllun cain gwreiddiol a'r crefftwaith o ansawdd uchel yn disgleirio unwaith eto, ac mae'r adeilad yn edrych ymlaen at bennod newydd a llewyrchus yn ei hanes.*





Cwblhawyd **Prosiect y Murlun.** Ewch am dro o gwmpas gerddi'r Plas a byddwch yn gweld bod yr hen floc toiledau wedi cael ei drawsnewid. Mae'r murluniau yn adrodd hanes y Stablau trwy ddefnyddio delweddau sy'n gysylltiedig â'r adeilad ei hun, y ceffylau a'r cŵn a fu'n gysylltiedig ag ef a'r ystlumod a fu'n defnyddio'r adeilad adfeiliedig. Y gobaith yw y bydd yr ystlumod yn dychwelyd i'r gwagle ar eu cyfer yn nho y lloches beiciau. At ei gilydd, roedd tua 150 o bobl wedi cymryd rhan ym mhrosiect y murlun, a arweiniwyd gan Liz Fenwick a Hannah Johns, arlunwyr. Roedd aelodau Ieuenctid Machynlleth Youth, y Grŵp Addysg yn y Cartref, Ysgol Gynradd Bro Hyddgen, y Sgowtiaid Archwilio a Chartref Dyfi wedi cyfrannu.







**I ddiweddaru a hysbysu'r cyhoedd, gosodir poster A1 newydd** yng Nghyntedd y Plas ac ar y ffens y tu allan. Bydd **taflen A5** newydd hefyd, a fydd ar gael yn y Plas ac mewn mannau eraill yn y dref. A fyddech gystal â chymryd rhai a'u rhoi i'ch ffrindiau.

Mae'n bwysig cynnal momentwm y prosiect, felly mawr obeithiwn sicrhau cyllid i weithio ar weithgareddau cymunedol cysylltiedig amrywiol dros y flwyddyn nesaf. Gallai hyn gynnwys prosiect archeolegol, mwy o waith recordio fideos a gwaith i benderfynu sut i ddehongli stori ac arwyddocâd y Stablau yn ystod Cam Dau y prosiect.

Mae **gwefan Stablaumach** bellach yn barod, ac mae modd troi ati yma: **https://www.stablaumach.co.uk**

**Tasgau presennol:**

- ***Sicrhau tua 1.8 miliwn ychwanegol i dalu am Gam Dau***
- **Parhau i roi gwybod i bawb am y cynnydd**

***Gallwn oll edrych ymlaen at weld Stablau Machynlleth yn gallu gwneud gwir gyfraniad i fywyd y dref a'r ardal ehangach ymhen ychydig flynyddoedd.***

*"Mae'r adeilad hwn yn berffaith er mwyn creu llety cyfeillgar, hygyrch ac unigryw i ymwelwyr newydd â Machynlleth. Mae'n ysbrydoledig gweld ein hen adeiladau yn cael eu defnyddio i groesawu pobl i'r dref a chynnig lle y mae modd i'r gymuned leol ei ddefnyddio mewn cymaint o ffyrdd"*

**Katie Hastings, Teithiwr a threfnydd cymunedol lleol.**

Os hoffech weld ein cynllun busnes a chael gwybodaeth bellach, neu gyfrannu i’r prosiect fel gwirfoddolwr, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost at: **info@stablaumach.co.uk**

Cadw
Gwnaed yn bosibl gan i Made possible with Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Trawsnewid Trefi Transforming Towns
Llywodraeth Cymru Welsh Government
AHF Transforming Heritage